Ordinhad 24
Penodi Athrawon, Darllenwyr a Darlithwyr Ymweld ac Er Anrhydedd

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 12 Hydref 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygiad diwethaf: Hydref 2018

Dyddiad adolygu: Hydref 2020

ORDINHAD 24
PENODI ATHRAWON, DARLLENWYR A DARLITHWYR YMWELD AC ER ANRHYDEDD

1. Gall y Brifysgol benodi Athrawon, Darllenwyr a Darlithwyr Er Anrhydedd neu Athrawon, Darllenwyr a Darlithwyr Ymweld. Gwneir pob penodiad am gyfnod o hyd at bum mlynedd, gyda'r posibilrwydd o'i adnewyddu.

2. Gweithdrefn

    1. Gwneir y penodiadau gan yr Is-Ganghellor a'i adrodd er gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio.

    2. Dylai unrhyw gynnig i'w ystyried gan yr Is-Ganghellor gael ei gyflwyno gan Gyfadran trwy'r adran Adnoddau Dynol, a chynnwys Curriculum Vitae y sawl sy'n cael ei argymell i'w penodi a datganiad clir o'r cyfraniad y disgwylir ganddynt i waith y Gyfadran a/neu'r Brifysgol.

3. Meini Prawf

    1. Bydd y rhai a enwebir i'w penodi'n Athrawon Ymweld neu'n Athrawon Er Anrhydedd fel arfer yn ysgolheigion nodedig o'r tu allan i'r Brifysgol ac nid yn aelodau o staff y Brifysgol sydd wedi ymddeol.

    2. Defnyddir y teitlau Darllenydd neu Ddarlithydd Er Anrhydedd neu Darllenydd neu Ddarlithydd Ymweld i gydnabod a rhoi statws i unigolion a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol yn rheolaidd i waith academaidd (dysgu a/neu ymchwil) y Brifysgol.

    3. Gellir defnyddio'r teitlau Ymweld ac Er Anrhydedd hyn i annog cysylltiad â sefydliadau ymchwil, diwydiant a'r celfyddydau, lle gwahoddir y rhai a benodir i gynghori ar brosiectau ymchwil ac i ddarlithio ym meysydd penodol eu diddordebau, yn amodol ar y profion hawl i weithio perthnasol.

4. Tâl

    Nid oes tâl yn gysylltiedig â phenodiad yn Athro, Darllenydd, neu Darlithydd Er Anrhydedd neu'n Athro, Darllenydd, neu Ddarlithydd Ymweld. Serch hynny, bydd costau'n cael eu had-dalu gan y Gyfadran lle mae'r penodiad yn cael ei ddal ar raddfeydd cymeradwy'r Brifysgol. Gall y Cyfadrannau dan sylw hefyd roi hawl i ddefnyddio adnoddau a gofod swyddfa.